Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Corris

Y Caban
Ysgol Dyffryn Dulas
Corris
Machynlleth
SY20 9TQ

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Corris

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Corris |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Howard Bevington |
| Person â gofal | Hannah Jones |
| Nifer y lleoedd | 18 |
| Amrediad oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 4 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 11:30 – 15:30 Dydd Mawrth i Ddydd Iau |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolygiad cyntaf ers cofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Arolygiad cyntaf ers cofrestru |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 18/03/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Parhau i ddatblygu llais y plentyn yn y cynllunio o weithgareddau

A2. Cryfhau rôl y pwyllgor rheoli yng ngwaith y lleoliad gan sicrhau fod goruchwyliaeth ac arfarniadau yn cael eu cofnodi a'u ffurfioli pob tro

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd y lleoliad yn frwdfrydig ac yn setlo'n gyflym pan yn gwahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Maent yn gyfarwydd â threfn y bore ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ar ba weithgareddau i gymryd rhan ynddynt heb ffwdan. Mae bron pob plentyn yn hapus, yn dangos hyder ac yn edrych ymlaen i'w hamser yn y lleoliad.

Mae'r plant yn gyfarwydd gydag arferion y lleoliad a maent yn teimlo'n ddiogel yng nghwmni'r ymarferwyr. Mae bron pob plentyn yn llwyddo i chwarae am gyfnodau o amser priodol am eu hoedran, er enghraifft wrth roi colur ar un o'r ymarferwyr yn yr ardal chwarae rôl. Maent yn sgwrsio yn hyderus ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu perthnasoedd agos a chynnes gyda'i gilydd a'r ymarferwyr. Maent yn ymateb yn bositif i'r ymarferwyr pan fyddant yn ymuno yn eu gweithgareddau, er enghraifft wrth chwarae tu allan yn y gegin fwd. Caiff y berthnasedd hyn effaith gadarnhaol ar les plant.

Mae bron pob un o'r plant yn teimlo'n hyderus a chartrefol ac yn dangos mwynhad yn rhannu eu profiadau a'u syniadau gydag ymarferwyr. Maent yn cydweithio, yn rhannu'n dda ac yn dangos empathi a pharch at ei gilydd wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn cymryd gofal pan yn yr ardal adeiladu rhag taro gwaith ei gilydd i lawr. Mae bron pob un ohonynt yn symud o gwmpas ac yn dewis yr adnoddau y maent eisiau eu defnyddio.

Mae bron pob un o'r plant yn ffurfio perthynas effeithiol â'r ymarferwyr. Maent yn gwybod y bydd yr holl ymarferwyr yn ymateb i'w hanghenion yn brydlon. Mae bron pob un ohonynt yn datblygu medrau cymdeithasol da ac yn cydweithredu'n effeithiol wrth chwarae gyda'i gilydd. Er enghraifft, maent yn cyfansoddi darnau syml o gerddoriaeth gydag offerynnau cerdd yn yr ardal fewnol, ac yn helpu ei gilydd i ddringo yn y parc gerllaw.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau annibynnol pwrpasol ac mae ganddynt yr hyder i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo'n annibynnol ac yn casglu eu byrbryd a gweini llaeth neu ddŵr i'w hunain yn llwyddiannus.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae'r arweinwyr yn gweithredu systemau a gweithdrefnau cadarn wrth sicrhau iechyd a diogelwch y plant. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth da o'u cyfrifoldebau ac maent yn llwyddo i sicrhau cyfleoedd arbennig i blant ddatblygu yn ôl eu gallu a'u hoedran. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo arferion effeithiol i sicrhau bod plant yn aros yn iach ac yn deall pwysigrwydd ymarfer corff ar eu hiechyd. Er enghraifft, maent yn darparu diodydd maethlon megis dŵr a llaeth i'r plant ac yn eu hatgoffa i olchi eu dwylo'n rheolaidd. Maent yn annog y plant i chwarae'n ddiogel gan ystyried y risg, er enghraifft wrth ddefnyddio offer dringo a siglenni mewn parc. Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth trylwyr o brosesau diogelu plant ac yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn achosi pryder. Mae ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn cadw cofnodion ar gyfer diogelu yn ogystal ag adroddiadau am ddamweiniau a digwyddiadau. Mae ymarferwyr yn sensitif i anghenion plant ac yn cefnogi eu preifatrwydd a'u hurddas pob amser.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn fodelau rôl effeithiol i'r plant. Maent yn rheoli rhyngweithiadau rhwng y plant yn dda. Maent yn sgwrsio yn dawel a chadarnhaol gyda nhw ac yn canmol eu hymdrechion yn rheolaidd. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant i ddatblygu cyfeillgarwch, ac i reoli eu teimladau. Maent yn atgoffa'r plant am bwysigrwydd caredigrwydd at ei gilydd. Er enghraifft wrth rannu y camera yn y parc ac i fod yn ofalus wrth chwarae yn yr ardal allanol. Mae ymarferwyr yn atgoffa'r plant am bwysigrwydd rhannu adnoddau ac yn eu canmol am ymddygiad cadarnhaol. Mae'r ymarferwyr yn gweithredu y polisi rheoli ymddygiad yn gyson.

Mae gan ymarferwyr wybodaeth berthnasol am sut i ddiwallu anghenion unigol plant. Maent yn arsylwi arnynt yn rheolaidd gan sicrhau bod bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd yn unol â'u camau datblygiad. Mae ganddynt weithdrefnau cadarn i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn cydweithio'n dda gyda'r Awdurdod Lleol ac asiantaethau allanol i gefnogi plant. Er enghraifft maent yn paratoi Cynlluniau Datblygu Unigol i sicrhau cefnogaeth effeithiol i'r plant. Mae y mwyafrif o'r plant sy'n mynychu yn trosglwyddo o'r ysgol gyfagos. Mae ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda'r ysgol sy'n golygu eu bod yn ymwybodol o unrhyw faterion sy'n codi ac yn gallu ymateb yn brydlon.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn arsylwi ar y plant yn effeithiol yn ystod eu gweithgareddau ac yn adnabod y camau nesaf yn eu datblygiad yn dda. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel a maent yn achub ar pob cyfle i ymestyn medrau'r plant. Pan yn mynychu ymweliadau, mae'r staff yn dysgu'r plant i groesi'r ffordd yn ddiogel ac yn eu hannog i fod yn annibynnol drwy dalu am fwyd mewn caffi a thynnu lluniau ar gamerâu digidol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu diddorol ac ysgogol i blant. Maent yn manteisio ar ddiddordeb cynhenid y plant ym myd natur pan yn cynllunio profiadau ar eu cyfer, fel creu grifft eu hunain yn dilyn taith natur. Maent yn dechrau cynnwys llais y plentyn yn effeithiol, er enghraifft wrth greu ardal trin gwallt mewn ymateb i'w diddordebau. Er hyn, nid yw'r agwedd o wrando ar lais y plentyn wedi gwreiddio'n llawn eto.

Mae'r ymarferwyr yn fodelau iaith da i'r plant. Maent yn cwestiynu'r plant yn effeithiol gan ddisgwyl iddynt ymateb yn Gymraeg. Maent yn trafod gyda nhw yn rheolaidd ac mae'r plant yn gwrando'n dda ar yr ymarferwyr a'i gilydd. O ganlyniad, mae medrau llafar Cymraeg y plant yn datblygu'n gadarn. Mae ymarferwyr yn darparu llyfrau diddorol mewn ardaloedd gwahanol o'r lleoliad sy'n ysgogi'r plant i'w hagor a'u mwynhau. Mae'r ymarferwyr yn trafod y llyfrau gyda'r plant yn effeithiol gan holi am y lluniau a'r storïau. Maent yn sicrhau bod medrau ysgrifennu cynnar y plant yn datblygu'n briodol yn unol â'u hoed a'u cam datblygiad. Maent yn sicrhau bod digon o adnoddau creu marciau ar gael i'r plant eu dewis, er enghraifft brwsys colur i'r plant ddefnyddio gyda'r ymarferwyr.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o ddiwylliant Cymru a'r ardal leol yn llwyddiannus iawn. Maent yn dysgu am achlysuron a chymeriadau arbennig fel y Fari Lwyd, a thrwy ymweliadau gyda busnesau lleol. Maent yn gwneud y mwyaf o'u hardal gan arddangos nodweddion amlwg o'u cynefin yn y lleoliad a thrwy fynd ar deithiau cerdded yn rheolaidd. O ganlyniad, mae gan bron pob plentyn ymwybyddiaeth gadarn o'u hardal leol a maent yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn iddi. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i'r plant ddysgu am ddiwylliannau gwahanol. Maent yn nodi gwledydd ar fap o'r byd yng nghyd â'u baneri, yn annog y plant i flasu bwydydd o wledydd gwahanol ac yn eu dysgu am sut i ysgrifennu rhifau yn Arabeg.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol. Maent yn defnyddio iaith fathemategol mewn cyd destunau perthnasol ac yn defnyddio adnoddau go iawn fel darnau o arian i gyfrifo gyda'r plant. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau fod y plant yn ymwybodol o effaith offer digidol ar eu bywydau. Maent yn eu hannog i ddefnyddio camerâu digidol yn annibynnol ac i chwarae'n ddychmygus gyda offer fel ffonau a thiliau yn yr ardal chware rôl.

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i’r plant ddatblygu eu medrau corfforol yn dda. Maent yn darparu offer bach iddynt ymarfer eu medrau modur mân ac yn rhoi cyfleoedd iddynt chwarae ar feiciau a llwybrau rhwystr i ymarfer cydbwyso a rheoli eu cyrff yn bwrpasol. Maent yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu medrau creadigol y plant. Maent yn eu hannog i fynegi’u hunain drwy amryw gyfryngau fel celf, cerddoriaeth a dawns. Mae’r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol a moesol y plant yn effeithiol. Maent yn eu dysgu am fod yn garedig a sut i ymdrin ag eraill drwy bwysleisio pwysigrwydd rhannu a chymryd tro yn deg. Mae’r ymarferwyr yn gwobrwyo ymddygiad da ac yn cynllunio cyfleoedd da i’r plant gymryd cyfrifoldebau.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd dysgu sy’n bwrpasol ar gyfer oedran y plant. Maent yn sicrhau amrywiaeth o gyfleoedd buddiol i ddatblygu ystod amrywiol o fedrau, yn enwedig i gyflawni tasgau cyffredinol a chymdeithasol. Er enghraifft, mae plant yn deall yr angen i dalu am nwyddau yn y ganolfan grefftau lleol. Mae ymarferwyr yn trefnu’r ardaloedd dysgu yn dda gan gynnig cyfleoedd i blant i ymchwilio ac i fwynhau’r profiadau ar gael iddynt. Maent yn darparu amgylchedd sy’n gynnes a chyfeillgar ar gyfer y plant, ac mae yna ymdeimlad cartrefol. Maent yn arddangos gwaith y plant gan hyrwyddo ymdeimlad o falchder a pherthyn iddynt.

Mae gan arweinwyr gamau a phrosesau da i sicrhau bod yr amgylchedd yn briodol ac yn cael ei gynnal yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod ymwelwyr yn mewngofnodi ac na chaiff unrhyw ymwelydd fynediad i’r lleoliad heb ganiatâd. Maent yn cwblhau asesiadau risg cynhwysfawr sy’n sicrhau bod pob ardal a gweithgareddau yn lleihau risg i’r plant a’r ymarferwyr. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn ddiogel ac maent yn dilyn ystod effeithiol o bolisïau sy’n glir ac yn gynhwysfawr. Maent yn ymarfer driliau tân yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod plant ac ymarferwyr yn dod yn gyfarwydd â llwybrau a gweithdrefnau ar gyfer gadael mewn argyfwng. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid priodol yn gyson yn ystod y dydd.

Mae’r dodrefn, offer ac adnoddau yn bwrpasol ar gyfer oedran y plant. Mae’r arweinwyr yn sicrhau eu bod o ansawdd priodol ac yn cael eu cynnal yn dda. Mae ymarferwyr yn cadw adnoddau ar lefelau priodol i’w hoedran sydd yn eu galluogi i’w hestyn yn annibynnol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth o ddeunyddiau cynaliadwy gan gynnwys adnoddau pren ac eitemau o fyd natur. Mae digon o doiledau addas a chyfleusterau priodol ar gyfer golchi a sychu dwylo. Mae’r cyfleusterau hyn yn darparu cyfleoedd da i blant fod yn annibynnol.

Mae arweinwyr yn darparu ardal allanol sy’n rhoi profiadau da i blant dysgu, chwarae ac ymlacio. Maent yn sicrhau bod digon o adnoddau yn yr ardal allanol er mwyn hybu a datblygu medrau’r plant. Maent yn denu’r plant i reidio’r beiciau, i ddringo ac i chwarae yn yr ardal ddŵr. Mae’r adnoddau o ansawdd da ac yn briodol ar gyfer oedrannau y plant sy’n mynychu gan sicrhau fod y plant yn cael pob cyfle i ddatblygu’n effeithiol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae’r arweinyddiaeth yn effeithiol o fewn y lleoliad. Mae’r ymarferwyr yn rhoi lles plant wrth wraidd popeth maent yn ei wneud. Mae ganddynt weledigaeth ar gyfer y lleoliad ac maent yn ei rhannu gydag ymarferwyr, rhieni a'r gymuned ehangach yn llwyddiannus. Mae hyn yn sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad yn deall beth mae arweinwyr yn ei ddisgwyl. Mae datganiad o bwrpas y lleoliad yn rhoi darlun cywir i rieni o'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig. Mae arweinwyr yn creu awyrgylch sy’n gynnes a chyfeillgar lle mae plant yn teimlo'n gyfforddus ac yn setlo'n gyflym.

Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo diwylliant o ddiogelu a diogelwch yn y lleoliad. Mae arweinwyr yn adolygu gweithdrefnau'n rheolaidd ac yn sicrhau fod unrhyw newidiadau yn cael eu gweithredu’n bwrpasol. Mae’r ymarferwyr yn arwain trwy osod esiampl yn eu rhyngweithio gyda’r plant a’u rhieni. Maent yn dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel wrth benodi ymarferwyr newydd ac mae ganddynt brosesau cadarn ar gyfer sefydlu ymarferwyr newydd.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau pwrpasol o ymarferwyr a phlant. Mae’r arweinwyr yn cefnogi’r ymarferwyr yn gyson ac yn sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth priodol. Fodd bynnag, nid yw’r cyfarfodydd yn cael eu cofnodi na’u ffurfioli pob tro. Mae’r ymarferwyr yn mynychu hyfforddiant defnyddiol i wella’u haddysgu, fel hyfforddiant ar adeiladu perthnasoedd gyda rhieni ynghyd â hyfforddiant ar ymddygiad cadarnhaol. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn dod yn fwy hyderus i gyflwyno profiadau newydd i’r plant.

Mae prosesau'r lleoliad ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn gadarn. Mae arweinwyr yn ystyried barn rhanddeiliaid, ac yn blaenoriaethu meysydd i'w gwella yn briodol. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr, rhieni a phlant yn chwarae rhan yn y broses hon a bod ganddynt lais gwerthfawr yn natblygiad y lleoliad. Yn ddiweddar mae’r arweinwyr wedi buddsoddi mewn adnoddau newydd ar gyfer yr ardal allanol. Mae’r adnoddau yn cynnwys cyfarpar a chyfleoedd i gael profiadau mwy naturiol ar draws y lleoliad.

Mae arweinwyr wedi sefydlu ystod o bartneriaethau buddiol a gwerthfawr sydd o fudd i'r plant. Mae'r lleoliad yn elwa o gysylltiadau agos â'r gymuned leol ac mae hyn yn helpu arweinwyr i ddarparu profiadau dysgu diddorol, fel ymweliadau â choedwig leol a chanolfan grefftau gerllaw. Mae ganddynt gysylltiadau cryf gyda'r rhieni a'r ysgol leol. Maent yn gwneud trefniadau buddiol i blant a'u rhieni ymweld â'r lleoliad cyn iddynt ddechrau. Maent yn teilwra y profiadau pontio yn bwrpasol i bob plentyn unigol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2025